# Cenarth-Newcastle Emlyn

# Cenarth-Castell Newydd Emlyn







Actif | Active

SIR GÂR | CARMARTHENSHIRE

## The Walks

This is a linear path along green lanes that link two of Carmarthenshire's most picturesque and historically interesting settlements. Most of the route is over gently undulating ground with only a couple of short sections of moderately steep ground.
It is just over three miles (approximately 5km) long.



*Mursen Fawr Wych*
*Banded Demoiselle*

### The Countryside Code

**Respect, Protect, Enjoy**
**Respect other people**

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them and follow paths unless wider access is available

**Protect the natural environment**

- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs under effective control

**Enjoy the outdoors and stay safe**

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs


RDP Sir Gâr

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


## Y Daith

Llwybr unionsyth yw hwn ar hyd lonydd tawel sydd yn cysylltu dau o bentrefi mwyaf atyniadol a hanesyddol Sir Gaerfyrddin. Er bod y rhan fwyaf o'r daith drwy wlad fryniog, dim ond ychydig rannau byrion sydd ar dir cymharol serth.
Mae'r daith ychydig dros dair milltir (rhyw 5 cilomedr) o hyd.



### Y Côd Cefn Gwlad

**Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch**
**Parchwch bobl eraill**

- Meddyliwch am gymuned yr ardal ac am y bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oedden nhw ac arhoswch ar y llwybrau oni bai fod mynediad agored ar gael

**Diogelwch yr amgylchedd naturiol**

- Peidiwch â gadael unrhyw arwydd eich bod wedi bod yno, ac ewch â'ch sbwriel gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol

**Mwynhewch a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff**

- Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod am unrhyw beth annisgwyl
- Dilynwch y cyngor a'r arwyddion lleol

## Cenarth - Castell Newydd Emlyn

Mae'r llwybr hwn yn cysylltu pentref a thref hynafol yn nyffryn Teifi, sef Cenarth a Chastell Newydd Emlyn, gan fynd trwy ardal wledig ddymunol ar hyd cwr deheuol gorlifdir Afon Teifi. Dilynir hen heol, yn wir mae'n bosibl taw ar hyd yr hen ffordd hon y teithiodd byddin Owain Glyndŵr ym mis Mehefin 1403 er mwyn ymosod ar y castell yng Nghastell Newydd Emlyn, ar ôl croesi'r afon ger Cenarth.

Pentref dymunol yr olwg ar lannau Afon Teifi yw Cenarth, ac mae'n nodedig am ei raeadrau ysblennydd ac am yr eogiaid sydd yn heidio yno ar eu taith. Mae gan Giraldus Cambrensis, neu Gerallt Gymro fel y'i hadwaenir, ddisgrifiad o'r bysgodfa eogiaid a welodd yno yn 1188. Hyd heddiw defnyddir y cwrwgl traddodiadol gan bysgotwyr ar yr afon, a Chenarth yw cartref Canolfan Gyryglau Genedlaethol Cymru. Er bod y pentref yn un bychan, mae'n frith o adeiladau a mannau diddorol, gan gynnwys eglwys y plwyf, sydd wedi bod yno ymhell dros 1000 o flynyddoedd, a chastell mwnt a beili, a godwyd yn y ddeuddegfed ganrif i warchod man hwylus i groesi'r afon.

Maredudd ap Rhys Gryg oedd wedi sefydlu Castell Newydd Newydd yn 1240 a hynny drwy godi castell yno i gadarnhau ei reolaeth dros arglwyddiaeth Emlyn Uwch Cych. Bu'r castell, y gellir gweld ei adfeilion ar lannau Afon Teifi, yn dyst i rai o'r digwyddiadau mwyaf dramatig yn hanes Cymru. Y castell hwn oedd cadarnle terfynol tywysog brodorol olaf Gorllewin Cymru, sef Rhys ap Maredudd (mab sylfaenydd y castell), a ddienyddiwyd yn 1292. Yn 1403 cafodd y castell ei gipio gan luoedd Glyndŵr yn ystod ei Ryfel dros Annibyniaeth. Dinistriwyd y castell gan filwyr Cromwell yn 1648 ar ôl i'r Rhyfel Cartref ddod i ben. Drwy gydol y blynyddoedd cythryblus hynny bu i'r dref oroesi, gan lwyddo i dyfu mewn cyfnodau llai tymhestlog yn ganolfan bwysig ar gyfer masnachu. Bellach mae Castell Newydd Emlyn yn dref farchnad brysur lle mae nifer o atyniadau diddorol, gan gynnwys siopau a thafarnau, ynghyd â'r eglwys, y capeli a'r adeiladau cyhoeddus eraill.

## Cenarth - Newcastle Emlyn

This trail connects two of the Teifi valley's most historic settlements, Cenarth and Newcastle Emlyn, passing through attractive countryside along the southern edge of the Teifi valley. It follows an old roadway, possibly the route followed by the army of Owain Glyndwr in June 1403 on its way to attack the castle of Newcastle Emlyn, having crossed the river near Cenarth.

Cenarth is a pretty village on the banks of the Teifi, renowned for its spectacular waterfall and salmon fishing. Giraldus Cambrensis described the salmon fishery here in 1188. The traditional coracle is still used by fishermen on the river, and Cenarth is the home of the National Coracle Centre for Wales. Although small, the village is packed with buildings and places of great historical interest, including the parish church, which has origins going back over 1000 years, and a motte and bailey castle, built here in the 12th century to guard the river crossing.



*Glas y Dorlan*
*Kingfisher*

Newcastle Emlyn owes its foundation and its name to the castle built by Maredudd ap Rhys Gryg in 1240 to establish his control of the lordship of Emlyn Uwch Cych. The castle, the ruins of which can be seen on the banks of the Teifi, was involved in some of the most dramatic events in Welsh history. It was a final stronghold of the last native prince of West Wales, Rhys ap Maredudd (a son of the castle's builder), who was executed in 1292. In 1403, it was captured by Glyndwr's men during his War of Independence. It was finally blown up by Cromwell's forces after the end of the Civil War in 1648. Throughout those troubled centuries, the town survived and during more peaceful times grew into an important centre of local trade and commerce. Today, Newcastle Emlyn is a busy market town with many places of interest, from shops and inns to its church, chapels and other public buildings.



*Pen Lletwad*
*Bullhead*

### Eisiau gwybod mwy?

Mae hwn yn un o gyfres o deithiau cerdded a argymhellir yn Sir Gaerfyrddin, am wybodaeth bellach ar hamdden awyr agored yn y Sir, ewch i:
www.discovercarmarthenshire.com

*Sylwer. Dylid gwisgo esgidiau cerdded cryf am fod rhannau o'r llwybrau yn debyg o aros yn fwdlyd hyd yn oed yn ystod yr haf. Mae rhai llwybrau yn croesi, neu'n cysylltu â, heolydd ble mae angen bod yn wyliadwrus os yr ydych yn cerdded yng nghwmni plant.*

### Want to know more?

This is one of a series of recommended walks in Carmarthenshire, for further information on outdoor leisure in the County please visit:
www.discovercarmarthenshire.com

*NB. Stout footwear is recommended as some sections of path may remain muddy even in summer. Some footpaths meet, or cross, short sections of highway where children should be closely supervised.*

**Trafnidiaeth Gyhoeddus:**
I gael y wybodaeth ddiweddaraf ffoniwch Linell Gymorth Cymru Gyfan ar
0871 2002 233

**Public Transport:**
For up-to-date information, phone the All Wales Public Information Helpline:
0871 2002 233



# Mannau Diddorol

1. Mae Afon Teifi yn bwysig iawn o ran cadwraeth natur, ac yn rhinwedd hynny mae'r afon wedi ei dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Wrth iddi ymdroelli o'i tharddle i'r môr mae cymeriad yr afon yn newid, gan ffurfio nifer o wahanol gynefinoedd sydd yn cynnal amrywiaeth enfawr o blanhigion ac anifeiliaid, y mae nifer ohonynt yn brin ac mewn perygl. Ledled Afon Teifi a'i hisafonydd mae dyfrgwn yn gyffredin lle mae digonedd o lystyfiant ar hyd y glannau.

2. Cyfeiriodd Gerallt Gymro at bont dros Afon Teifi yng Nghenarth yn 1188, ond yn 1787 y codwyd y bont bresennol. Y penseiri oedd William Edwards a'i fab David, a fu'n gyfrifol am gynllunio nifer o bontydd ynghanol y 18fed ganrif gan gynnwys y bont enwog ym Mhontypridd. Mae'r tyllau crynion yn y pentanau, er mwyn lleihau pwysau'r bont, yn nodweddu eu gwaith.

3. Y tu cefn i'r Hen Efail, sydd bellach yn ganolfan dreftadaeth a siop roddion, saif olion castell. Yn ôl pob tebyg fe'i codwyd yn y 12fed ganrif i amddiffyn man hwylus i groesi'r afon. Yr unig beth a erys ohono yw mwnt helaeth o bridd, lle arferai'r tŵr pren sefyll.

4. Codwyd eglwys bresennol Llawddog Sant yn 1872, a hynny am fod yr adeilad blaenorol yn mynd rhwng y cŵn a'r brain, pan oedd yn rhaid i'r gwasanaethau gael eu cynnal yn yr ysgoldy. Mae'r bedyddfaen amrwd ei wneuthuriad yn dyddio o'r 12fed ganrif neu'n gynharach. Yn y fynwent saif maen o'r 6ed ganrif sydd yn coffau Curcagnus, mab Andagelli. Daeth y garreg o Sir Benfro yn wreiddiol ond cafodd ei symud i'r fynwent o dir Plasty Gellidywyll yn 1896 i'w ddiogelu.

5. Mae tri adeilad yng nghyffiniau Cenarth a fu'n ficerdy ar ryw adeg neu'i gilydd. Codwyd y ficerdy hwn ynghanol y 19eg ganrif. Cafodd ei godi yn lle ficerdy cynharach, sydd yn dal i sefyll gyferbyn â thafarn y Three Horseshoes. Saif y ficerdy diweddaraf uwchlaw'r fynwent.

6. Mae'r llwybr yn croesi'r A484 yma. Adeiladwyd y ffordd hon fel Ffordd Tyrpeg gan Gwmni Tyrpeg Caerfyrddin a Chastell Newydd Emlyn ar ôl 1802.

7. Fferm yw Gelligatti ym mhentrefan Gelligatti, sef un o bedwar pentrefan ym mhlwyf Cenarth. Yn 1670 archwiliwyd y ffermdy at ddibenion treth a gwelwyd bod yno bedair aelwyd; felly roedd yn un o dai pwysicaf y fro. Codwyd y ffermdy presennol a'r tai maes trawiadol tua chanol y 19eg ganrif.

8. Mae'r llwybr yn rhedeg yn agos i Bwll Dafi William yma, un o byllau dyfnaf y Teifi. Yn ôl hen chwedl ganoloesol, roedd gwiber ffyrnig oedd yn codi arswyd ar bobl y dref, wedi cael ei saethu gan filwyr cyn syrthio i mewn i'r pwll hwn i farw.

9. Yn 1843, yn ystod gwrthdystiadau Merched 'Beca yn erbyn anghyfiawnder y ffyrdd tyrpeg, anfonwyd milwyr i gadw'r heddwch yn y dref. Yn anffodus, boddwyd un o'r Dragwniaid wrth nofio ym Mhwll Dafi William. Gwelir ei fedd heddiw wrth waelod tŵr eglwys y plwyf.

10. Mae'r llwybr yn rhedeg heibio nifer o adeiladau pwysig o'r 19eg ganrif wrth gyrraedd y dref, gan gynnwys y Llysdy, yr hen ysgol, y capel Methodistaidd, Neuadd y Dref a Neuadd y Farchnad. Dyma brawf o gynnydd Castell Newydd Emlyn yn Oes Fictoria.

11. Yn fynych mae Gwyddau Canada i'w gweld yn pori ar y dolydd gyferbyn ag adfeilion y castell. Liw dydd yn ystod yr haf mae gwenoliaid a gwenoliaid y glennydd yn brysur yn hela pryfed dros yr afon. Liw nos tro'r ystlumod yw hi i hel eu tamaid.

# Points of Interest

1. The River Teifi is important for nature conservation and designated as a Site of Special Scientific Interest. Throughout its length it changes in character forming many different habitats that support an impressive array of plants and animals, several of which are rare and endangered. Otters are widespread along the Teifi and its tributaries where vegetation provides adequate cover.

2. Giraldus Cambrensis mentioned a bridge over the Teifi at Cenarth in 1188, but the present bridge was built in 1787. The architects were William Edwards and his son David, who designed many bridges in the mid-18th century including the famous bridge at Pontypridd. The circular holes, designed to reduce the weight of the bridge, are their trademark.

3. Behind the Old Smithy heritage centre and gift shop are the remains of a castle. It was probably built in the 12th century to defend the river crossing and survives today as a large earth mound or "motte". A timber tower would have stood on the mound.

4. The present church of St Llawddog was built in 1872, when the previous church was so ruinous that services had to be held in the schoolhouse. The crude bowl of the baptismal font dates from the 12th century or earlier. In the churchyard stands a 6th century inscribed stone commemorating Curcagnus, son of Andagelli. The stone originally came from Pembrokeshire but was brought to the churchyard from the grounds of Gellidywyll Mansion in 1896.

5. There are three surviving buildings in and around Cenarth that have served as vicarages. This one was built in the mid-19th century. It replaced the earlier vicarage, which can be seen opposite the Three Horseshoes pub. The most recent vicarage stands above the churchyard.

6. The trail crosses the modern A484, which was originally built as a Turnpike Road by the Carmarthen and Newcastle Emlyn Turnpike Trust after 1802.

7. Gelligatti was a farmstead at the centre of the hamlet of Gelligatti, one of four hamlets in Cenarth parish. In 1670 the house was assessed for tax purposes as having four hearths, making it one of the most important houses in the area. The current farmhouse and its impressive outbuildings were built in the mid-19th century.

8. The trail runs close to the Teifi here, passing the deep pool of Pwll Dafi William. According to legend, a monstrous dragon which terrorised the town in medieval times was slain with a poisoned arrow and fell into this pool to die.

9. In 1843, during the height of the Rebecca Riots, soldiers were sent to Newcastle Emlyn to keep the peace. One of the Dragoons was sadly drowned whilst swimming in Pwll Dafi William. His grave lies at the base of the parish church tower.

10. The trail passes many important 19th century buildings as it enters the town. These include the Court House, the old school, Bethel Methodist chapel, and the Town Hall and Market Place. They reflect the rise of Newcastle Emlyn in Victorian times.

11. Canada Geese can often be seen grazing the meadows opposite the castle ruins. By day, during the summer months, Sand Martins and Swallows hunt insects over the river. These are replaced at dusk by bats.



*Eog*
*Salmon*




GWASANAETH CEFN GWLAD
COUNTRYSIDE SERVICE





